

Boccia

Grŵp oedran y gweithgaredd: 8 - 11



Gweithgaredd: **Rheoli'r rholio**

Sut mae chwarae:

- ▶ Mewn parau, gosodwch gadeiriau fel eich bod yn eistedd gyferbyn â'ch gilydd (dim mwy na 6 chadair) Sylwch: I chwarae boccia, mae angen eistedd i lawr drwy'r amser.
- ▶ Gosodwch smotyn/ marciwr gwastad o'ch blaen i wneud targed.
- ▶ Cymerwch eich tro i daflu'r bêl fel ei bod yn glanio ar darged eich partner.
- ▶ Gallwch chi daflu/rholio'r bêl dan yr ysgwydd, dros yr ysgwydd, gyda'ch traed neu gan ddefnyddio'r ramp os bydd angen.

Yn arwain at

Gweithgaredd: **Sgorio'n sydyn**

Sut mae chwarae:

- ▶ Gosodwch gadeiriau yn y neuadd (dim mwy na 6 chadair). Bydd y disgyblion yn dewis cadair i eistedd arni.
- ▶ Rhannwch yn ddau dîm, un coch ac un glas (yn eistedd bob yn ail). Bydd y tîm coch yn dechrau chwarae.
- ▶ Gosodwch sawl targed ar draws llawr y neuadd. Byddwch chi'n sgorio 10 pwynt am daro targedau llai, 4 pwynt am daro targedau canolig, a 2 bwynt am daro targedau mwy.
- ▶ Cymerwch eich tro i ddewis y targed rydych chi am daflu/rholio eich pêl ato. Ewch i'ch safle a thaflu/ rholio'r bêl i'r targed y gwnaethoch chi ei ddewis, neu mor agos â phosib ato.
- ▶ Os byddwch chi'n cael y bêl yn y targed, byddwch chi'n cael y pwyntiau am daro'r targed hwnnw.
- ▶ Y tîm sydd â'r pwyntiau uchaf fydd yr enillydd!

Offer:

- ▶ Ardal chwarae fawr
- ▶ Cadeiriau
- ▶ Peli boccia, dewis o beli neu fagiau ffa
- ▶ Ramp (os bydd angen)
- ▶ Marcwyr, conau, basgedi neu rwydi (ar gyfer targedau neu rwystrau)
- ▶ Rhifau i gadw'r sgôr



Defnyddio STEP:

	Haws	Anoddach
Gofod (Space)	Defnyddiwch ofod cul/llai fel bod y targedau'n agosach.	Defnyddiwch ofod llydan/mwy fel bod y targedau ymhellach i ffwrdd.
Tasg (Task)	Defnyddiwch eich braich/troed gryfaf i rolïo'r bêl boccia i'r targed.	Defnyddiwch eich braich/troed wannaf neu ramp i rolïo'r bêl boccia i'r targed.
Offer (Equipment)	Defnyddiwch dargedau mwy i'w gwneud hi'n haws rholïo'r bêl i mewn i'r targed.	- Defnyddiwch dargedau llai neu wahanol siâp i'w gwneud hi'n anoddach rholïo'r bêl i mewn i'r targed. - Gosodwch rwystrau ychwanegol i daflu/rholïo'r bêl drostynt neu oddi tanynt.
Pobl (People)	Rhowch help llaw i gefnogi'r unigolyn yn ystod y gweithgaredd.	Dim ond un bêl fydd gan bob chwaraewr i'w thaflu, felly bydd angen i'r person ganolbwyntio ar gywirdeb a lleoliad y bêl.

Nid yw'r holl atebion ar gael yn y canllawiau uchod, ac mae'n bosibl nad yw rhai o ofynion penodol y disgyblion yn cael sylw. Rydyn ni'n eich annog i ymgysylltu â'r holl ddisgyblion, sylwi ar eu hanghenion, a chyfathrebu'n effeithiol, gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn o ddarparu cymorth wedi'i deilwra pan fydd angen.

Ystyriaethau penodol:

Disgyblion sy'n ddall ac yn rhannol ddall:

- Defnyddiwch gonau neu farcwyr sy'n hawdd eu gweld.
- Gofynnwch i gyfaill neu dywysydd glapio wrth ymyl y targed.

Disgyblion sydd ag anableddau dysgu:


- Cyflwynwch yr adrannau un ar y tro.
- Dylech eu hannog a'u hatgoffa yn ystod y gweithgaredd.
- Parwch y disgyblion hyn gyda rhywun sy'n gwneud iddyn nhw deimlo'n gyfforddus ac sy'n gallu eu helpu i gymryd rhan yn y dasg a chanolbwyntio arni.
- Defnyddiwch gyfarwyddiadau clir a chryno.

Disgyblion byddar neu drwm eu clyw:

- Dangoswch sut i wneud y gweithgaredd - cyn dechrau arni a phan fydd y cyfarwyddiadau'n newid.
- Defnyddiwch arwyddion gweledol, fel chwifio baner neu fib i ddangos pryd mae tro'r disgybl i fynd.

Disgyblion sydd â nam corfforol:

- Rhowch ramp i helpu'r disgybl i daflu neu rolïo'r bêl.
- Gallant wisgo pwyntydd ar eu pen a'i ddefnyddio i ryddhau'r bêl i lawr y ramp.



STEP © 2002,
Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid. Cedwir pob hawl.